# CYNGOR GWYNEDD
# CRONFA BENTHYCIADAU BUSNES
# CANLLAW GWYBODAETH

Mae ffurflenni cais ar gael gan y Tîm Cefnogi Busnes ar **01286 679231** neu **e-bostiwch**: busnes@gwynedd.llyw.cymru – rhaid i bob darpar ymgeisydd gysylltu â'r Tîm Cefnogi Busnes er mwyn trafod ei gynnig cyn cyflwyno cais.

**CYMHWYSTER**

Bydd y Gronfa ar gael i fusnesau oddi fewn i ffiniau ardal Cyngor Gwynedd. Fe ddylai pob busnes fod â'i ganolfan weithredol neu nifer sylweddol o weithwyr parhaol llawn amser oddi fewn i ffiniau Gwynedd.

Cyfyngir cymhwyster i fusnesau bach neu ganolig eu maint (yn cynnwys mentrau cymdeithasol).

Pwrpas y benthyciad yw creu neu ddatblygu busnes ac nid i ad-dalu dyledion neu fenthyciadau eraill.

Bydd angen tystiolaeth i gadarnhau bod darpar ymgeiswyr wedi cysylltu, yn y lle cyntaf, gyda'u banc, er mwyn trafod eu hanghenion ariannu.

**GWYBODAETH BELLACH**

Ceir benthyciadau bychain rhwng £25k a £100k gyda'r cyfle i fenthyg symiau mwy cyn belled ag y cefnogir hyn gyda gwarant yn seiliedig ar ased gwerthfawr.

Gall y benthyciad gael ei ddefnyddio fel cymorth tuag at wariant cyfalaf neu ariannu cyfalaf gweithredol.

Y cyfnod ad-dalu benthyciad bychan fydd rhwng 36 a 60 mis tra bod benthyciad ased fel rheol yn parhau dros o leiaf 60 mis.

Bydd llog yn cael ei godi ar bob benthyciad. Bydd y gyfradd llog yn ddarostyngedig i adolygiad blynyddol ar sail cyfraddau llog y farchnad.

Yn ddieithriad, bydd holl geisiadau benthyciad yn cael eu hasesu'n ariannol a'u gwerthuso gan ymgynghorwyr ariannol annibynnol a benodir gan Gyngor Gwynedd.

Bydd penderfyniad y Panel Gronfa Benthyciad yn derfynol.

Bydd angen y wybodaeth a ganlyn er mwyn asesu pob cais am fenthyciad:

- Cynllun busnes sy'n rhoi manylion y busnes a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol
- CV manwl ar gyfer yr holl bartïon
- 3 blynedd o gyfrifon wedi'u harchwilio (os yn berthnasol)
- Copïau o ddatganiadau banc am y 6 mis diwethaf (os yn berthnasol)
- O leiaf 2 flynedd o ragamcanion mantolen, cyfrif Elw a Cholled a llif arian
- Eich cyfrifon rheoli diweddaraf a rhestr dyledwyr/credydwyr yn nhrefn amser (os ar gael)
- Eich Tystysgrif Ymgorfforiad (os ydyw ar gael)
- Tystiolaeth i gadarnhau bod darpar ymgeiswyr wedi cysylltu, yn y lle cyntaf, â'u banc, er mwyn trafod eu hanghenion ariannu

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL